# Y Tîm Cyfathrebu a Pherthnasoedd

## Lleferydd ac Laith

**Beth y gallwch ei ddisgwyl gan y maes gwasanaeth hwn?**

- Mae cymorth ar gael i ysgolion meithrin y fwrdeistref gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ar y cyd â Chymorth i Ddysgwyr er mwyn eu helpu i asesu ac adnabod anghenion yn gynnar, a chael cymorth drwy'r rhaglen WellComm. Hefyd, cynigir hyfforddiant, sesiynau galw heibio, ymweliadau ag ysgolion a chyngor a chymorth.
- Mae therapydd lleferydd ac iaith locwm yn cynnig cymorth mewn canolfannau Addysg ac Adnoddau Cyfathrebu ac Awtistiaeth i ddisgyblion ag anghenion lleferydd a/neu iaith penodol sydd y tu allan i'w diagnosis o Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig.
- Mae therapydd lleferydd ac iaith hefyd ar gael i gynorthwyo grwpiau bach o ddisgyblion sydd â datganiad.
- Mae therapydd lleferydd ac iaith hefyd yn gallu helpu gyda llwyth achos o ddisgyblion mewn dosbarthiadau prif ffrwd sydd ag anawsterau lleferydd a/neu iaith penodol sylweddol. Mae angen nifer o sesiynau therapi bob wythnos ar rai o'r disgyblion hyn ac mae'r gwasanaeth Cynhwysiant ac un o Therapyddion Lleferydd ac Iaith y GIG yn gweithio ar y cyd i'w cynorthwyo.
- Mae'r tîm yn cyflwyno rhaglenni iaith a lleferydd y GIG i nifer fach o ddisgyblion unigol sydd ag anawsterau lleferydd a/neu iaith penodol sylweddol mewn ysgolion ledled y fwrdeistref.
- Gall y tîm ddangos i ysgolion sut i gyflwyno rhaglen iaith a lleferydd y GIG a bydd yn monitro cynnydd y disgyblion.
- Mae'r gwasanaeth yn cynnig amrywiaeth eang o becynnau hyfforddi.
- Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyngor a chymorth ynghylch rheoli disgyblion ag anawsterau lleferydd ac iaith gan gynnwys gwaith gwahaniaethol.
- Mae'r gwasanaeth yn helpu i hwyluso adolygiadau o waith Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (CCU).
- Mae'n rhoi cymorth penodol cyn/yn ystod/ar ôl cyfnodau pontio, i gynghori lleoliadau newydd ac i sicrhau bod darpariaethau ar waith ac yn gweithio'n effeithiol.
- Mae'n darparu cymorth ategol.

**Beth yw’r ymateb graddedig a sut y gallwch fanteisio ar arbenigedd y gwasanaeth?**

- Cynigir darpariaeth ar dair lefel: cyffredinol, penodol ac arbenigol.
- Y prif bwyslais ar y lefel gyffredinol yw meithrin gallu yn yr ysgolion eu hunain. Mae’r gwasanaeth yn ceisio gwneud hyn drwy gynnig amrywiaeth o gyfleoedd i staff ddatblygu’n broffesiynol a drwy drefnu i ymweld â’r ysgol i roi cyngor a chymorth ynghylch rheoli disgyblion sydd ag anawsterau lleferydd ac iaith gan gynnwys gwaith gwahaniaethol.
- Y prif bwyslais ar y lefel benodol yw sicrhau bod ymyriadau ar waith i helpu disgybl sydd ag anhawster lleferydd a/neu iaith, sy’n ychwanegol at gwricwlwm yr ysgol ac yn wahanol iddo. Gwneir hyn drwy ddarparu cyngor ac arweiniad ychwanegol a all gynnwys: arsylwi, cyngor ynghylch targedau CAMPUS (Cyraeddadwy, Amser wedi'i Bennu, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol), argymhellion ar gyfer rhaglenni/adnoddau mwy personol; cyngor ynghylch defnyddio rhaglen ar y cyd rhwng y GIG a Therapydd Lleferydd ac Iaith, cymorth i hwyluso adolygiad o CCU ar gyfer disgybl penodol a thrafod i benderfynu a ddylid ei atgyfeirio at un o Therapyddion Lleferydd ac Iaith y GIG.
- Y prif bwyslais ar y lefel arbenigol yw galluogi ysgolion i ddarparu cymorth mwy penodol ac arbenigol i ddisgyblion sydd ag anawsterau lleferydd a/neu iaith sylweddol. Gwneir hyn drwy:
    - Drafod yr atgyfeiriad yn y Fforwm Cyfathrebu sy’n cwrdd bob mis. Cyfarfod ar y cyd yw hwn rhwng Gwasanaeth Lleferydd ac Iaith Cynhwysiant a’r Therapydd Lleferydd ac Iaith a chaiff atgyfeiriadau eu trafod a’u brysbennu a dyma’r unig ffordd y gall disgyblion oedran ysgol Pen-y-bont ar Ogwr gael asesiad/cymorth gan Therapydd Lleferydd ac Iaith y GIG.
    - Gwasanaeth gan y Therapydd Lleferydd ac Iaith mewn canolfan Addysg ac Adnoddau Cyfathrebu ac Awtistiaeth.
    - Allgymorth i nifer fach o ddisgyblion os yw un o Therapyddion Lleferydd ac Iaith y GIG yn gwneud cais amdano.
    - Cymorth ategol.
    - Cymorth, canllawiau ar arddangosiad i ysgolion sy’n cyflwyno rhaglenni Therapyddion Lleferydd ac Iaith y GIG i ddisgyblion.